

SESIWN 3

DEALL SGILIAU YMCHWILIO

Amser

Un awr

Ynglŷn â'r sesiwn hon

Bydd y disgyblion yn darganfod dulliau ymchwil sylfaenol ac eilaidd. Rhoddir iddynt y cyfle i brofi sgiliau ymchwil sylfaenol efallai y byddant yn eu defnyddio i ymchwilio i'w Prosiect Cymryd Camau Gweithredu. Maent hefyd yn dechrau cynllunio pa ymchwil sydd angen arnynt i gwblhau a dyrannu cyfrifoldeb ar gyfer y tasgau hyn.

Amcanion dysgu

Bydd y disgyblion yn gallu:

- gwybod a deall y mathau gwahanol o ymchwil: sylfaenol ac eilaidd;
- dewis dull ymchwilio sylfaenol i ymchwilio i'w mater.

Cwestiynau allweddol

Pa wybodaeth sydd gennym ynglŷn â'n mater?

Beth yw'r gwahanol ffyrdd y gallwn ymchwilio i'n mater?

Adnoddau sydd eu hangen

Cyfrifiadur/gliniadur gyda thaflunydd ar gyfer sioe sleidiau PowerPoint

PowerPoint: Prosiect Cymryd Camau Gweithredu – Sesiwn 3

6 amlen A4

Ar Drywydd y Targed (taflen waith 3 o Sesiwn 2)

Taflenni adnoddau'r pecyn ymchwilio (gweler isod)

Sut i baratoi

Bydd angen i chi greu chwe phecyn ymchwilio – un ar gyfer pob bwrdd carwsél. Yn gyntaf, rhowch label ar bob un o'ch amlenni A4 gyda rhif o un i chwech. Wedyn rhowch y canlynol i mewn i'r amlenni perthnasol:

Amlen 1 a 4

1 copi o Weithgaredd Ymchwilio 1 : Holiaduron (ar y cardiau cyfarwyddyd) } pob amlen
15 copi o'r Holiadur

Amlen 2 a 5

1 copi o Weithgaredd Ymchwilio 2: Cyfweliadau (ar y cardiau cyfarwyddyd) } pob amlen
9 copi o gwestiynau Cyfweliad
3 chopi o gerdyn rôl yr un sy'n cael ei Gyfweld

Amlen 3 a 6

1 copi o Weithgaredd Ymchwilio 3: Arsyllwadau (ar y cardiau cyfarwyddyd) } pob amlen
3 chopi o gofnodion yr Arsyllwr
3 chopi o gerdyn rôl yr Actorion

Mae'r nifer o daflenni sydd eu hangen (a amlinellir uchod) yn frasamcan a seilir ar ddosbarth o 30 disgybl, gyda phum disgybl ym mhob grŵp. Bydd angen i chi benderfynu faint o gopïau o bob taflen y bydd eu hangen arnoch ar gyfer eich dosbarth (neu cadwch rai sbâr wrth law).

SESIWN 3 DEALL SGILIAU YMCHWILIO

Cynllun y sesiwn

Amser	Cyflwyniad	Adnoddau
0-5 munud	Mae angen i bob disgybl ddewis sgil allweddol i ganolbwyntio arni yn y wers hon: cydweithredu/gwaith tîm, cyfathrebu a meddwl yn feirniadol. Gofynnwch i'r disgyblion osod chwe chlwstwr o fyrddau o gwmpas yr ystafell ac i feddwl yn ofalus am y sgil allweddol a ddewiswyd ganddynt wrth iddynt wneud hyn. Rhannwch y dosbarth ar hap yn chwe grŵp cyfartal o ran maint a rhoddwch fwrdd iddynt eistedd wrtho.	Sesiwn 3 Sleidiau PowerPoint 1-3
Gweithgareddau		
5-35 munud (10 munud ar gyfer pob bwrdd)	Carwsél Sgiliau Ymchwilio Cyflwynwch ddau fath o ymchwil – sylfaenol ac eilaidd (sleid 4). Esboniwch y byddant yn profi tri math gwahanol o ymchwil sylfaenol yn y gweithgaredd hwn: holiaduron, cyfweiliadau, arsylwadau (sleid 5). Mae'r mater a archwilir yn y gweithgaredd hwn yn gysylltiedig â'r hawl dynol i orffwys a hamdden. Rhowch label ar y byrddau o un i chwech a dosbarthwch yr amlenni/pecynnau ymchwilio perthnasol. Bydd gan bob grŵp 10 munud i ddarllen eu cardiau Cyfarwyddyd ac i gwblhau'r gweithgaredd. Ar ôl 10 munud, bydd pob grŵp yn cylchdroi i'r bwrdd nesaf (bydd y grŵp ar Fwrdd 1 yn symud at Fwrdd 2, ac yn y blaen. Bydd Bwrdd 6 yn symud at Fwrdd 1). Gwnewch hyn am yr ail dro fel bydd pob disgybl yn profi pob un o'r tri dull ymchwilio. Nodwch y bydd pob grŵp dim ond yn ymweld â chyfanswm o dri bwrdd gwahanol. Ewch drwy sleidiau 6-9 gan esbonio'r sgiliau ymchwilio a archwiliwyd yn y gweithgaredd carwsél. Defnyddiwch y cwestiynau ar gyfer y sleid i ysgogi trafodaeth. Sleid 7: Gall y disgyblion weithio mewn parau i benderfynu pa gwestiynau sy'n 'agored' a pha rai sy'n 'gaeëdig' (agored: 2,3,6; caeëdig: 1,4,5). Esboniwch fod sgiliau ymchwil sylfaenol yn debygol o fod fwyaf defnyddiol ar gyfer grwpiau sy'n cymryd camau gweithredu ar faterion lleol, er efallai bydd grwpiau sy'n cymryd camau gweithredu ar faterion byd-eang yn dymuno gwneud ymchwil i agweddau lleol at y mater.	Pecynnau ymchwilio Sleidiau PowerPoint 4-10
35-55 munud	Datgelu sgiliau ymchwilio Dylai disgyblion ddychwelyd at eu grwpiau Prosiect Cymryd Camau Gweithredu. Dosbarthwch daflenni gwaith <i>Ar Drywydd y Targed</i> pob grŵp o Sesiwn 2 ac ewch i'r ail ochr, <i>Rolau a Chyfrifoldebau</i>. Dylai pob grŵp benderfynu ar ba dasgau penodol mae bosibl y bydd rhaid iddynt eu gwneud i gyflawni eu targed, a chofnodi rolau a chyfrifoldebau ar gefn pob taflen waith.	<i>Ar Drywydd y Targed</i> (taflen waith 3, Sesiwn 2) Sleid PowerPoint 10
55-60 munud	Cyfarfod llawn y grŵp Mewn parau bydd disgyblion yn myfyrio ar y sgiliau a ddefnyddiwyd yn y wers hon. I ba raddau llwyddon nhw? Gweler sleid 11. Casglwch daflenni gwaith <i>Ar Drywydd y Targed</i> a'u cadw'n ddiogel ar gyfer sesiwn 4	Sleid PowerPoint 11

SESIWN 3 PECYN YMCHWILIO

CARDIAU CYFARWYDDYD

I'w copïo ar gerdyn, eu torri allan a'u rhoi yn y pecynnau ymchwilio perthnasol

Gweithgaredd ymchwilio 1: Holiaduron

Yn y gweithgaredd ymchwilio hwn, cewch brofiad o lenwi'r holiadur am barc lleol. Mae'r mater sy'n cael ei ymchwilio yma'n perthyn i'r hawl dynol am orffwys a hamdden.

Dylai pob aelod o'ch grŵp lenwi copi o'r Holiadur sydd yn yr amlen hon. Darllenwch y cwestiynau'n ofalus. Gallwch naill ai feddwl am barc sy'n lleol i chi ac ateb y cwestiynau'n onest, neu ddyfeisio'r atebion.



Gweithgaredd ymchwilio 2: Cyfweliadau

Yn y gweithgaredd ymchwilio hwn cewch brofiad o sefyllfa gyfweliad. Mae'r mater sy'n cael ei ymchwilio yma'n perthyn i'r hawl dynol am orffwys a hamdden.

Ffurfiwch bâr gyda rhywun yn eich grŵp. Mae un ohonoch chi'n gyfwelydd, a'r llall yn un sy'n cael ei gyfweld. Dylai'r cyfwelydd ddarllen a dilyn y cyfarwyddiadau ar y daflen Gyfweliad. Dylai'r un sy'n cael ei gyfweld ddarllen a dilyn y cyfarwyddiadau ar y cerdyn rôl ar gyfer Cyfweleion. Os ydych yn odrif, dylech chi weithio mewn grwpiau o dri, gyda dau berson yn gweithio fel y cyfweleion.



Gweithgaredd ymchwilio 3: Arsylliadau

Yn y gweithgaredd ymchwilio hwn cewch brofiad o arsylliad. Mae'r mater sy'n cael ei ymchwilio yma'n perthyn i'r hawl dynol am orffwys a hamdden.

Bydd hanner y grŵp yn 'arsyllwyr' a'r hanner arall yn 'actorion'. Bydd yr actorion yn chwarae rôl ar gyfer rhai gweithgareddau a all ddigwydd mewn parc lleol (gweler cardiau'r Actorion i gael manylion). Mae'n rhaid i'r arsyllwyr gymryd nodiadau ar yr hyn y maent yn ei weld, gan ddefnyddio taflen cofnodi'r Arsyllwyr.



SESIWN 3 **PECYN YMCHWILIO**

HOLIADUR

Mae gennym ddiddordeb mewn gweld a all pobl leol fwynhau eu hawl dynol i orffwys a hamdden yn llawn. Yn benodol rydyn ni'n cynnal ymchwil i brofiadau pobl o'r parc lleol. Hoffem wybod beth yw eich agweddau tuag at y parc. Atebwch y cwestiynau canlynol yn onest, gan farcio eich atebion gyda chroes yn y bocs perthnasol ac ysgrifennu eich atebion yn glir.

1. A fyddwch chi'n defnyddio'r parc o gwbl?

Byddaf ☐

Na fyddaf ☐

2. Pa mor aml byddwch yn defnyddio'r parc ar gyfer y gweithgareddau canlynol? Ticiwch y bocs sy'n gymwys i chi.

Gweithgaredd	Byth	Unwaith yr wythnos	Ddwywaith neu dair yr wythnos	Bedair neu bum gwaith yr wythnos	Mwy na phum gwaith yr wythnos
Chwarae pêl-droed					
Chwarae criced					
Chwarae pêl-fasged/ pêl-rwyd					
Bod gyda ffrindiau					
Eistedd ar y meinciau					
Cerdded adref o'r ysgol/o dŷ ffrind					
Mynd â'r ci am dro					
Mynd â pherthynas ifanc i le chwarae'r plant					

3. Beth yw'r gair cyntaf sy'n dod i'ch pen wrth i chi feddwl am y parc?

Cofnodwch eich ateb yma.

4. 'Nid yw'r parc y lle diogel i fod ynddo'. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad hwn?

Marciwch eich barn â chylch ar y raddfa isod, mae 1 yn cytuno'n gryf, ac mae 5 yn anghytuno'n gryf.

1

2

3

4

5

SESIWN 3 PARHAD I'R PECYN YMCHWILIO HOLIADUR

5. A oes unrhyw ardaloedd penodol o'r parc ble rydych chi'n teimlo'n anniogel?

A wnewch chi gwblhau'r tabl isod fel sy'n briodol.
Cewch chi ychwanegu lleoedd eraill yn y parc i'r golofn ar y chwith.

Ardal y parc	Ni fyddaf byth yn teimlo'n anniogel yma	Byddaf weithiau'n teimlo'n anniogel yma	Byddaf yn aml yn teimlo'n anniogel yma	Byddaf yn teimlo'n anniogel yma bob tro
Y caeau pêl-droed				
Y cae criced				
Y cwrt pêl-fasged/pêl-rwyd				
Lle chwarae'r plant				
Y meinciau				

6. A oes unrhyw adegau penodol o'r diwrnod neu ddyddiau o'r wythnos pryd rydych chi fwyaf tebygol o deimlo'n anniogel?

Yn gynnar yn y bore

Ar y ffordd i'r ysgol

Ar y ffordd adref o'r ysgol

Gyda'r nos

Yn ystod yr wythnos

Ar y penwythnos

7. A ydych chi wedi sylwi ar fandaliaeth yn y parc erioed?

Ydw

Nac ydw

8. Pa un o'r gosodiadau hyn rydych chi'n meddwl sy'n esbonio'r achos tebygol dros fandaliaeth?

Rhowch y gosodiadau mewn trefn o 1 i 4, lle mai 1 yw'r rheswm mwyaf tebygol.

- a. Nid yw'r fandaliaid yn hoffi'r parc

b. Nid oes gan y fandaliaid unrhyw beth gwell i'w wneud – nid oes unrhyw beth i'w wneud yn yr ardal hon

c. Gallai'r fandaliaid fod yn gwneud pethau eraill, ond maent eisiau dangos eu hunain

d. Mae'r fandaliaid o dan bwysau gan eu cyfoedion, ee mae'n rhan o gael eich derbyn i gang

9. Sut rydych chi'n teimlo wrth i chi weld fandaliaeth yn y parc?

Yn iawn

Nid yw'n fy mhoeni

Yn grac

Nid oes ots gennyf

Yn grac iawn

Ychydig yn wael

Arall

SESIWN 3 PECYN YMCHWILIO

CWESTIYNAU CYFWELIAD

Cyfarwyddiadau ar gyfer y cyfwelydd: Esboniwrch i'r cyfwelai fod gennych ddiddordeb mewn darganfod a all pobl leol fwynhau ei hawl dynol i orffwys a hamdden yn llawn. Esboniwrch eich bod yn cynnal ymchwil i brofiadau pobl o'r parc lleol. Byddwch yn hoffi gwybod beth yw agweddau eich cyfwelai tuag at y parc. Gofynnwch iddynt ateb y cwestiynau canlynol yn onest a chofnodwch eu hatebion ar y daflen isod.

1. A fyddwch chi'n defnyddio'r parc o gwbl?

Byddaf ☐ Na fyddaf ☐

2. Pa mor aml byddwch yn defnyddio'r parc ar gyfer y gweithgareddau canlynol?

Byddaf yn darllen rhai dewisiadau i chi; rhwch wybod i mi pa rai sy'n gymwys ar gyfer pob gweithgaredd. Ticiwch y blychau sy'n gymwys i'ch cyfwelai chi.

Gweithgaredd	Byth	Unwaith yr wythnos	Ddwywaith neu dair yr wythnos	Bedair neu bum gwaith yr wythnos	Mwy na phum gwaith yr wythnos
Chwarae pêl-droed					
Chwarae criced					
Chwarae pêl-fasged/pêl-rwyd					
Bod gyda ffrindiau					
Eistedd ar y meinciau					
Cerdded adref o'r ysgol/ o dŷ ffrind					
Mynd â'r ci am dro					
Mynd â pherthynas ifanc i le chwarae'r plant.					

3. Beth yw'r gair cyntaf sy'n dod i'ch pen wrth i chi feddwl am y parc? Esboniwrch eich ateb.

Cofnodwch eu hateb yma.

4. 'Nid yw'r parc yn lle diogel i fod ynddo.' I ba raddau rydych yn cytuno â'r gosodiad hwn?

Cofnodwch eu hateb ar y raddfa isod, mae 1 yn cytuno'n gryf, ac mae 5 yn anghytuno'n gryf.

12345

SESIWN 3 **PECYN YMCHWILIO PARHAD I'R CWESTIYNAU CYFWELIAD**

5. A oes unrhyw fannau o'r parc lle rydych yn teimlo'n arbennig o anniogel?

Pam felly? A oes unrhyw adeg o'r diwrnod pan rydych yn teimlo'n arbennig o anniogel?

6. A ydych erioed wedi sylwi ar unrhyw fandaliaeth yn y parc? Os felly, ble?

7. Beth yn eich barn chi sy'n ysgogi pobl i fandaleiddio ardaloedd o'r parc?

8. Sut byddwch chi'n teimlo wrth i chi weld fandaliaeth yn y parc?

9. Ychwanegwch eich cwestiwn eich hunan yma

SESIWN 3 PECYN YMCHWILIO

CERDYN RÔL YR UN SY’N CAEL EI GYFWELD

Bydd cyfwelydd yn gofyn nifer o gwestiynau i chi ynglŷn â’ch profiadau a’ch agweddau at barc lleol. Meddyliwch am barc yn lleol i chi ac atebwch y cwestiynau’n onest, neu defnyddiwch wybodaeth am y cymeriad ffuglennol isod ar gyfer eich ateb. Defnyddiwch eich dychymyg i ddatblygu eich atebion ac ymateb yn ôl y cymeriad.

Gwybodaeth am y cymeriad

Rydych yn byw’n agos iawn at y parc ac yn cerdded trwyddo bob dydd ar y ffordd i’r ysgol ac yn ôl. Byddwch fel arfer yn chwarae pêl-droed tua thair gwaith yr wythnos yn y parc, ac roeddech chi’n arfer teimlo’n ddiogel iawn yno. Fodd bynnag, ar ôl digwyddiad diweddar, rydych chi wedi peidio â mynd. Roeddech yn chwarae pêl-droed fin nos gyda’ch ffrindiau ac aeth y bêl i mewn i le chwarae’r plant. Roedd grŵp o bobl yn eu harddegau o ysgol arall yn sefyllian yno. Doedden nhw ddim yn gadael i chi nôl eich pêl a gwnaethon nhw eich bygwth chi a’ch ffrindiau, felly, rhedoch chi i ffwrdd. Mae llanast yn lle chwarae’r plant – mae bonau sigarennau ym mhob man, a rhoddwyd graffiti ar y llithren. Rydych yn meddwl mai rhan o gang yw’r gŵp a’u bod yn fandaleiddio lle chwarae’r plant fel mai dim ond nhw sy’n gallu ei ddefnyddio. Does dim ots ganddynt na all y plant ifanc chwarae yno bellach. Gallwch groesi’r parc o hyd i fynd i’r ysgol ac yn ôl – dyna’r unig amser mae llawer o bobl eraill o gwmpas ac rydych yn teimlo’n ddiogel.



Gwybodaeth am y cymeriad

Rydych yn byw’n agos iawn at y parc ac yn cerdded trwyddo bob dydd ar y ffordd i’r ysgol ac yn ôl. Byddwch fel arfer yn chwarae pêl-droed tua thair gwaith yr wythnos yn y parc, ac roeddech chi’n arfer teimlo’n ddiogel iawn yno. Fodd bynnag, ar ôl digwyddiad diweddar, rydych chi wedi peidio â mynd. Roeddech yn chwarae pêl-droed fin nos gyda’ch ffrindiau ac aeth y bêl i mewn i le chwarae’r plant. Roedd grŵp o bobl yn eu harddegau o ysgol arall yn sefyllian yno. Doedden nhw ddim yn gadael i chi nôl eich pêl a gwnaethon nhw eich bygwth chi a’ch ffrindiau, felly, rhedoch chi i ffwrdd. Mae llanast yn lle chwarae’r plant – mae bonau sigarennau ym mhob man, a rhoddwyd graffiti ar y llithren. Rydych yn meddwl mai rhan o gang yw’r gŵp a’u bod yn fandaleiddio lle chwarae’r plant fel mai dim ond nhw sy’n gallu ei ddefnyddio. Does dim ots ganddynt na all y plant ifanc chwarae yno bellach. Gallwch groesi’r parc o hyd i fynd i’r ysgol ac yn ôl – dyna’r unig amser mae llawer o bobl eraill o gwmpas ac rydych yn teimlo’n ddiogel.



Gwybodaeth am y cymeriad

Rydych yn byw’n agos iawn at y parc ac yn cerdded trwyddo bob dydd ar y ffordd i’r ysgol ac yn ôl. Byddwch fel arfer yn chwarae pêl-droed tua thair gwaith yr wythnos yn y parc, ac roeddech chi’n arfer teimlo’n ddiogel iawn yno. Fodd bynnag, ar ôl digwyddiad diweddar, rydych chi wedi peidio â mynd. Roeddech yn chwarae pêl-droed fin nos gyda’ch ffrindiau ac aeth y bêl i mewn i le chwarae’r plant. Roedd grŵp o bobl yn eu harddegau o ysgol arall yn sefyllian yno. Doedden nhw ddim yn gadael i chi nôl eich pêl a gwnaethon nhw eich bygwth chi a’ch ffrindiau, felly, rhedoch chi i ffwrdd. Mae llanast yn lle chwarae’r plant – mae bonau sigarennau ym mhob man, a rhoddwyd graffiti ar y llithren. Rydych yn meddwl mai rhan o gang yw’r gŵp a’u bod yn fandaleiddio lle chwarae’r plant fel mai dim ond nhw sy’n gallu ei ddefnyddio. Does dim ots ganddynt na all y plant ifanc chwarae yno bellach. Gallwch groesi’r parc o hyd i fynd i’r ysgol ac yn ôl – dyna’r unig amser mae llawer o bobl eraill o gwmpas ac rydych yn teimlo’n ddiogel.



SESIWN 3 PECYN YMCHWILIO

COFNODION YR ARSYLLWR

Lleoliad:

Y parc

Amser:

Arsyllwyr sy'n bresennol (enwau):

Dylech gofnodi yr hyn a welwch chi yn unig. Trafodwch gyda'r arsyllwyr eraill os ydych yn ansicr.
Byddwch yn ofalus peidio â chamddehongli yr hyn a welwch chi.

Arsylliadau:

SESIWN 3 **PECYN YMCHWILIO**

CERDYN RÔL ACTORION

Rydych yn mynd i esgus bod yn aelodau'r cyhoedd yn defnyddio'r parc lleol mewn gwahanol ffyrdd. Defnyddiwch feimio neu chwarae rôl i actio sgetshis cyflym o'r gweithgareddau a restrir isod o flaen yr arsyllwyr yn eich grŵp. Gallwch ychwanegu eich gweithgareddau eich hunan hefyd.

1. Chwarae pêl-droed yn egnïol, heb unrhyw ofid o gwbl
2. Cerdded yn frysïog i fynd i rywle (ee yr ysgol/gwaith) gan edrych ar eich orïawr
3. Chwerthin a sgwrsio, gan edrych yn hapus
4. Ysmygu ac yfed, gan edrych yn fygythiol
5. Chwistrellu graffiti ar wal



Rydych yn mynd i esgus bod yn aelodau'r cyhoedd yn defnyddio'r parc lleol mewn gwahanol ffyrdd. Defnyddiwch feimio neu chwarae rôl i actio sgetshis cyflym o'r gweithgareddau a restrir isod o flaen yr arsyllwyr yn eich grŵp. Gallwch ychwanegu eich gweithgareddau eich hunan hefyd.

1. Chwarae pêl-droed yn egnïol, heb unrhyw ofid o gwbl
2. Cerdded yn frysïog i fynd i rywle (ee yr ysgol/gwaith) gan edrych ar eich orïawr
3. Chwerthin a sgwrsio, gan edrych yn hapus
4. Ysmygu ac yfed, gan edrych yn fygythiol
5. Chwistrellu graffiti ar wal



Rydych yn mynd i esgus bod yn aelodau'r cyhoedd yn defnyddio'r parc lleol mewn gwahanol ffyrdd. Defnyddiwch feimio neu chwarae rôl i actio sgetshis cyflym o'r gweithgareddau a restrir isod o flaen yr arsyllwyr yn eich grŵp. Gallwch ychwanegu eich gweithgareddau eich hunan hefyd.

1. Chwarae pêl-droed yn egnïol, heb unrhyw ofid o gwbl
2. Cerdded yn frysïog i fynd i rywle (ee yr ysgol/gwaith) gan edrych ar eich orïawr
3. Chwerthin a sgwrsio, gan edrych yn hapus
4. Ysmygu ac yfed, gan edrych yn fygythiol
5. Chwistrellu graffiti ar wal

